# PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Mercher, 4 Medi 2013 am 9.00 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Brian Blakeley, Stuart Davies, Martyn Holland, Gwyneth Kensler (Is-Gadeirydd), Jason McLellan (Cadeirydd) a/ac Paul Whitham.
Roedd y Cynghorydd M.Ll. Davies yn bresennol fel arsyllwr.

## HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Moderneiddio a Lles, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd (GW), Pennaeth Archwilio Mewnol (IB), Pennaeth Cwsmeriaid ac Addysg (JW), Pennaeth Adnoddau Dynol Strategol (LA), y Prif Gyfrifydd (RW), Rheolwr y Gwasanaeth Adnoddau Dynol (CR), Swyddog Cwynion Corfforaethol (CO), Rheolwr Archwilio (BS), Cynrychiolwyr Swyddfa Archwilio Cymru (AV a GB), a'r Gweinyddwr Pwyllgorau (CIW).

## 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Barbara Smith a/ac Julian Thompson-Hill

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni ddatganodd unrhyw Aelod gysylltiad personol neu sy'n rhagfarnu ar unrhyw fater sy'n cael ei ystyried yn y cyfarfod.

## 3 MATERION BRYS

Ni chodwyd unrhyw eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys dan Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

## 4 COFNODION

Cyflwynwyd Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd ar 3 Gorffennaf, 2013.

***PENDERFYNWYD –*** *y dylid derbyn a chymeradwyo'r Cofnodion fel cofnod cywir.*

## 5 HUNANASESIAD Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

Roedd yr adroddiad yn cyd-fynd â chyflwyniad y Pennaeth Archwilio Mewnol o hunanasesiad o wybodaeth, sgiliau a phrofiad y Pwyllgor Llywodraethu

Corfforaethol i gyflawni ei rôl yn effeithiol, a gynhaliwyd fel rhan o gynllun hyfforddiant Aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol.

Fel rhan o Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol y Cyngor, i sicrhau effeithiolrwydd y Pwyllgor Archwilio, cynhaliwyd hunanasesiad blynyddol gan Bwyllgorau Archwilio Awdurdodau Lleol i ganfod unrhyw wendidau, anghenion hyfforddi a datblygu. Bu'r ymdrech i gynnal yr hunanasesiad drwy holiadur yn aflwyddiannus a chadarnhawyd y byddai'r cyflwyniad yn cynnwys gofynion allweddol Pwyllgor Archwilio effeithiol a nodi unrhyw feysydd lle'r oedd angen Cynllun Gweithredu gwelliant.

Teimlai'r PAM y dylid ymateb i gwestiynau ynglŷn â lefel y sicrwydd y teimlai Aelodau fyddai ei angen fel Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Corfforaethol, ac a fyddai sicrwydd yn cael ei roi ac o ble a gan bwy.

Teimlai aelodau fod sicrwydd yn cael ei roi gan uwch swyddogion drwy ymateb i gwestiynau a gyflwynwyd yng nghyfarfodydd y Pwyllgor. Rhoddwyd tystiolaeth o gydymffurfiad a her gan Archwilio Mewnol ac Allanol ac asiantaethau eraill, ac eglurodd y PAM y byddai sicrwydd hefyd yn cael ei roi drwy'r Fframwaith Llywodraethu.

Awgrymodd y Cadeirydd y dylid ailadrodd y rhaglen hyfforddiant a roddwyd i Aelodau Etholedig yn dilyn etholiadau'r Cyngor Sir. Cytunodd y Pwyllgor y dylid cynnig sesiwn hyfforddiant gyffredinol i bob Aelod Etholedig ac y dylid cynnal sesiwn hyfforddiant uwch, ac y dylid ail gylchredeg canllaw hawdd y pecyn cyflwyno Aelodau. Awgrymodd Aelodau'r Pwyllgor hefyd y dylid darparu hyfforddiant i Aelodau newydd a benodwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd B. Blakeley, cyfeiriodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democratiaeth (PGCD) at Gylch Gorchwyl y Pwyllgor a rhoddodd fanylion i'r Is-Gadeirydd am aelodaeth y Cyngor o'r Pwyllgor, a chadarnhaodd y gellid adolygu'r rhain.

Gyda chymorth cyflwyniad PowerPoint, cyfeiriodd y Pennaeth Archwilio Mewnol (PAM) at ofynion allweddol Pwyllgor Archwilio a nododd feysydd i'w gwella yn y cynllun gweithredu lle bod angen hynny.

Amlygodd y cyflwyniad feysydd yn ymwneud â:-

- Darparu sicrwydd.
- Fframwaith Llywodraethu.
- Partneriaethau.
- Archwilio Mewnol.
- Herio.
- Rheoli Risg.
- Twyll.
- Rheolaeth Ariannol.
- Archwilio Allanol.
- Gwybodaeth, cefnogaeth ac effeithiolrwydd y Pwyllgor.

Rhoddodd y swyddogion yr ymatebion a ganlyn i faterion a chwestiynau a godwyd gan Aelodau o'r Pwyllgor yn ystod y cyflwyniad:-

- Mynegodd y PAM ei bryderon ynglŷn â threfniadau Llywodraethu Partneriaethau a chadarnhaodd fod angen gwella rhai meysydd. Amlinellodd y gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd i ymateb i'r mater hwn a chyfeiriodd at ddechrau'r hyfforddiant Tystysgrif Llywodraethu Corfforaethol, y byddai'n cymryd rhan ynddo. Cyfeiriodd y Cynghorydd M. L. Holland at y risgiau posibl oedd yn gysylltiedig â gwaith partneriaeth, gan gyfeirio'n benodol at grwpiau a chyrff allanol sy'n derbyn arian gan y Cyngor.
- Mewn ymateb i gwestiwn gan Mr P. Whitham, cadarnhaodd y PAM y byddai'n archwilio darpariaeth hyfforddiant i swyddogion mewn perthynas â'r Fframwaith Bartneriaethau newydd.
- Cytunodd Aelodau y dylid cyflwyno adroddiad blynyddol, tebyg i'r un a gynhyrchwyd gan y Pwyllgorau Archwilio, yn manylu ar y gwaith a wnaed gan y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol.
- Amlygodd Mr P. Whitham yr angen am ragor o fanylion mewn perthynas ag adroddiadau dilynol, cynnig eglurder mewn perthynas â chanrannau sicrwydd hanfodol a chyflwyniad amgen y Cynllun Gweithredu Llywodraethu Blynyddol a'r Datganiad Monitro Llywodraethu Blynyddol i gyfarfodydd y Pwyllgor.
- Cyfeiriodd y PAM at ddatblygiad Cynllun Sicrwydd Twyll a fyddai'n cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor. Cytunodd Aelodau y byddai swyddogion o adrannau allweddol a nodwyd yn cael eu gwahodd i gyfarfodydd y Pwyllgor.

Yn dilyn trafodaeth bellach:-

***PENDERFYNWYD*** *– bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol:-*

*(a) yn derbyn ac yn nodi cynnwys Cynllun Gweithredu'r Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol drafft.*
*(b) yn gofyn i sesiwn hyfforddiant gyffredinol gael ei darparu i bob Aelod etholedig, cyn cynnal sesiwn uwch i Aelodau o'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol.*
*(c) Yn cytuno fod copi o ganllaw hawdd y pecyn cyflwyno yn cael ei gylchredeg i Aelodau.*
*yn gofyn i adroddiad yn rhoi manylion am waith y Pwyllgor gael ei gyflwyno yn flynyddol, ac*
*(d) y Cynllun Sicrwydd Twyll yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor a bod swyddogion o'r adrannau allweddol a nodir yn cael eu gwahodd i fod yn bresennol.*
***(IB, GW ac RW i Weithredu)***

## 6 DIWEDDARIAD CYLLIDEB

Roedd adroddiad gan y Pennaeth Cyllid ac Asedau, a oedd yn rhoi diweddariad ar y sefyllfa ddiweddaraf o ran y broses o bennu cyllideb y Cyngor ar gyfer 2014/15, wedi'i gylchredeg yn barod.

Roedd y mwyafrif o gyllid y cyngor, oddeutu 78%, yn dod gan Lywodraeth Cymru trwy'r Grant Cynnal Refeniw ac ailddosbarthu'r Trethi Annomestig Cenedlaethol. Yn 2013/14, y setliad terfynol ar gyfer Sir Ddinbych oedd £150.821 miliwn. Roedd gweddill y cyllid yn cael ei ddarparu drwy Dreth y Cyngor, £40.7 miliwn yn y gyllideb yn 2013/14. Roedd effaith y symudiad ar y setliad yn cael effaith llawer mwy arwyddocaol na symudiad ar lefelau Treth y Cyngor.

Rhoddodd y Prif Gyfrifydd (PG) gyflwyniad yn canolbwyntio ar yr adroddiad, a gylchredwyd gyda phapurau'r cyfarfod, a fyddai'n cael ei gyflwyno i'r Cyngor ar 10 Medi, 2013. Roedd adroddiad wedi'i gyflwyno ym mis Mehefin, 2013 yn amlinellu rhagdybiaethau mewn perthynas â setliad cyllideb refeniw bosibl y Cyngor a'r goblygiadau ariannol posibl. Nes y cyhoeddwyd y Setliad Llywodraeth Leol Drafft ym mis Hydref, byddai'r sefyllfa yn aneglur er bod popeth yn awgrymu y byddai'r setliad yn un gwael, gyda'r CLILC wedi argymell y dylai Cynghorau ragdybio gostyngiad o -4% yn 2014/15. Eglurodd y PG fod gormod o ansicrwydd yn parhau i roi union ffigwr ond pe bai gostyngiad i setliad refeniw'r Cyngor ar lefel o -4% a phe bai effaith y newid yn sgil y cyfrifiad yn cael ei weithredu ym mlwyddyn un, yna ni fyddai rhagdybiaeth cynllunio o ostyngiad o rwng £8-9m yn bosibilrwydd afresymol. Bydd y cyngor hefyd yn wynebu pwysau chwyddiant mewn meysydd fel tâl, pensiynau, ynni a phwysau o ran y galw am wasanaethau.

Mewn ymateb i'r setliad gwael tebygol, mae pob gwasanaeth yn gwneud cynnydd wrth ddynodi cynigion ar gyfer arbedion ar gyfer y tair blynedd nesaf. Byddai cynigion newydd i arbed, gyda thri gwasanaeth yn dal i'w hadolygu, yn cael eu hystyried ym mis Medi gyda'r Aelodau Arweiniol perthnasol cyn eu cyflwyno i aelodau etholedig mewn gweithdy ym mis Hydref.

Mae'r broses Herio Gwasanaethau ar gyfer 2012/13 a 2013/14 wedi dynodi arbedion posibl o £1.716m ar gyfer 2014/15. Roedd y cynigion wedi'u hystyried yn fanwl yn y cyfarfodydd Herio Gwasanaethau ac wedi'u cadarnhau mewn cyfarfodydd diweddar gyda Phenaethiaid Gwasanaeth. Roedd y cynigion arbed wedi'u cynnwys yn Atodiad 1 ac wedi'u disgrifio fel Cam 1 y broses o gyflawni targed a allai fod yn arwyddocaol ar gyfer 2014/15.

Mae'r adroddiad i'r Cyngor wedi dynodi arbediad o £1.7m gyda £782k ohono wedi'i gynnig gan wasanaethau a £963k ohono yn arbedion wedi'u harwain yn gorfforaethol, gyda £663k ohono'n cael ei gyflawni gan wasanaethau. Roedd y cynigion ar gyfer arbedion 2014/15 eisoes wedi eu hystyried mewn cyfarfodydd herio gwasanaeth yn 2011 ac yn 2012 ac wedi'u cynnwys fel rhan o'r targedau tair blynedd a ddynodwyd yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Bydd cytundeb ffurfiol o'r arbedion sydd eisoes wedi eu dynodi'n caniatáu i ymdrechion gwleidyddol a chorfforaethol ganolbwyntio at y dasg heriol o osod gweddill y gyllideb ar gyfer 2014/15.

Mae'r arbedion corfforaethol a amlygwyd fel Moderneiddio'r Cyngor yn rhan o darged i gyflawni gwerth £3.0 miliwn o arbedion yn y 3 blynedd nesaf wrth ddatblygu prosiectau i gyflawni arbedion effeithlonrwydd a meithrin cymhwysedd mewn gwasanaethau. Mae sawl prosiect effeithlonrwydd yn cael eu datblygu, gan gynnwys buddsoddi mewn Rheoli Dogfennau a Chofnodion Electronig a Chofrestr Anfonebau Ganolog a phrosiectau eraill sy'n cynyddu'r defnydd o dechnoleg er mwyn cyflawni arbedion trwy leihau'r angen i deithio, cynyddu hyblygrwydd a

gweithredu systemau gweinyddol mwy effeithlon. Yn y pen draw bydd targedau arbedion moderneiddio yn cael eu cyflawni gan y gwasanaethau.

Mae’r grynodeb o Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb cam 1 rhaglen effeithlonrwydd 2014/15 mewn perthynas ag effaith y cynigion arbed wedi’i chynnwys yn Atodiad 2.

Mynegwyd pryderon ynglŷn ag effaith pobl nad ydynt yn talu treth y cyngor mewn perthynas â chanlyniad data’r cyfrifiad a gynhyrchwyd, gan gyfeirio’n benodol at boblogaeth symudol sy’n byw mewn carafanau neu gartrefi gwyliau. Amlinellodd y PG y rhesymau dros yr amrywiad yn ffigyrau’r cyfrifiad a chadarnhaodd fod Cymdeithas Trysoryddion Cymru yn cynnal trafodaethau gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC), sy’n ceisio sicrhau lliniariad mewn perthynas ag effaith y ffigyrau, ac amlygodd y posibilrwydd y byddai angen diwygio ffigyrau’r setliad. Cytunodd y PG y gellir rhoi manylion y trafodaethau gyda CLlLC ac ymatebodd i bryder a fynegwyd gan Mr P. Whitham ynglŷn â’r risgiau posibl oedd ynghlwm â hyn. Eglurodd fod eitem sefydlog ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol ynglŷn â gosod cyllideb gytbwys, a chytunodd i roi rhagor o wybodaeth i Mr Whitham ar y mater hwn. Rhoddodd yr PGCD fanylion am yr eitem ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol, a chadarnhaodd y PAM y byddai Archwilio Mewnol yn archwilio’r camau sy’n cael eu cymryd ac yn adrodd ar eu cynnydd.

Awgrymodd y Cynghorydd G.M. Kensler y byddai’n bwysig archwilio uchelgeisiau'r Cyngor yn fanwl cyn gosod y praesept treth y cyngor, a sicrhau gymaint â phosibl o gyllid allanol a manteisio ar unrhyw grantiau sydd ar gael.

Mynegodd y Cynghorydd M.Ll. Davies y farn y dylid darparu rhagor o fanylion mewn perthynas â cholli incwm yn deillio o gau amryw o gyfleusterau’r Cyngor. Cytunodd y PG i gynnig ymateb i’r Cynghorydd B. Blakeley ynglŷn â cholli incwm yn sgil cau’r maes parcio ar Stryd y Cei.

Cyfeiriodd y Cynghorydd S.A. Davies at estyniad yr AHNE a mynegodd y farn y dylai ei haelodaeth gynnwys dau Aelod Ward Llangollen.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cadeirydd, rhoddodd y PG fanylion yr arbedion ar y gyllideb ac arbedion effeithlonrwydd fyddai’n cael eu creu mewn perthynas â chynlluniau tymor canolig a hir o safbwynt prosiectau cydweithio a phartneriaethau. Cadarnhaodd nad oedd unrhyw gynlluniau partneriaeth o bwys wedi’u cynllunio ar hyn o bryd mewn perthynas â gostyngiadau yn y gyllideb.

***PENDERFYNWYD -*** *bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn nodi’r sefyllfa ddiweddaraf a'r camau bwriedig nesaf ac yn ystyried y cynigion ar gyfer arbedion sy’n mynd ger bron y Cyngor Sir i’w cymeradwyo’n ffurfiol.*

## 7 ADOLYGIAD/DIWEDDARIAD RHEOLI TRYSORLYS 2012/13

Roedd copi o adroddiad gan y Pennaeth Cyllid ac Asedau wedi’i gylchredeg o'r blaen.

Roedd Atodiad 1 Adroddiad Rheoli Trysorlys (RhT) Blynyddol 2012/13, yn amlinellu gweithgarwch buddsoddi a benthyg y Cyngor yn ystod 2012/13. Roedd yn rhoi manylion am yr hinsawdd economaidd ar y pryd hwnnw ac yn nodi sut y cydymffurfiodd y Cyngor â'i Ddangosyddion Darbodus. Roedd Atodiad 2, Diweddariad RhT, yn manylu ar weithgarwch RhT y Cyngor yn ystod 2013/14.

Eglurodd y Prif Gyfrifydd fod RhT yn cynnwys rheoli benthyca, buddsoddiadau a llif arian y Cyngor, gydag oddeutu £0.5bn yn llifo drwy gyfrifon banc y Cyngor yn flynyddol. Swm y benthyciadau cyfredol oedd £133.26m, gyda thâl cyfradd llog blynyddol cyfartalog o 5.77%. Ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn byddai gan y Cyngor rwng £20-£35m i'w fuddsoddi a oedd ar hyn o bryd yn ennill 0.80% ar gyfartaledd.

Craffwyd ar lywodraethiant y RhT gan y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol (PLlC) a oedd yn derbyn dau ddiweddariad y flwyddyn ar weithgarwch RhT ac wedi adolygu'r Adroddiad RhT blynyddol ar gyfer 2012/13. Roedd y tîm RhT yn darparu adroddiadau a hyfforddiant i'r PLlC yn unol â'r amserlen oedd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad. Roedd rhaid i'r PLlC feddu ar lefel penodol o ddealltwriaeth o'r broses RhT a gyflawnwyd drwy gael diweddariadau a sesiynau hyfforddi rheolaidd. Roedd swyddogaeth y PLlC yn cynnwys deall y Dangosyddion Darbodus, effaith benthyca ar y sefyllfa refeniw, sbardunau ehangach yn effeithio ar weithgarwch RhT y Cyngor a sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu mewn modd darbodus o safbwynt ei weithgareddau RhT.

Pwrpas yr Adroddiad RhT Blynyddol, Atodiad 1, oedd:

- cyflwyno manylion cyllid cyfalaf, benthyca, ad-drefnu dyledion a thrafodion buddsoddi yn 2012/13.
- adrodd ar oblygiadau risg penderfyniadau a thrafodion trysorlys.
- cadarnhau cydymffurfiad â therfynau trysorlys a Dangosyddion Darbodus.

Roedd y Diweddariad RhT, Atodiad 2, yn rhoi manylion y canlynol:-

- Amgylchedd economaidd allanol.
- Risgiau.
- Gweithgarwch.
- Rheolaeth.
- Gweithgarwch yn y dyfodol.

Cyfeiriodd y Prif Gyfrifydd at y pedwar prif ysgogwr twf ac eglurodd fod hyder defnyddwyr wedi arwain at rywfaint o dwf yn ddiweddar. Dywedodd wrth Aelodau y byddai penderfyniadau buddsoddi a benthyca da yn caniatáu cyfeirio adnoddau ychwanegol at wasanaethau eraill y Cyngor, a chadarnhaodd fod y Cyngor wedi ymgynghori â'u hymgynghorwyr trysorlys, Arlingclose Ltd. Amlinellwyd trefniadau monitro a rheoli risgiau i'r Cyngor yn yr adroddiad. Fodd bynnag, mae'n amhosib dileu'r risgiau hyn yn llwyr. Caiff strategaeth a threfnau RhT y Cyngor eu harchwilio'n flynyddol a bu'r adolygiad diweddaraf o'r archwiliad mewnol yn gadarnhaol ac nid oedd unrhyw faterion sylweddol yn codi.

Gwnaed cyfeiriad at ddiddymu'r System Cymhorthdal Tai yng Nghymru. Roedd Llywodraeth Cymru wedi trafod fod y Trysorlys yn rhoi swm iddynt am adael y System Gymhorthdal, ac effaith hyn ar Sir Ddinbych fyddai swm cyfalaf o £40m a fyddai'n cael ei fenthyca ar ddyddiad penodol. Eglurodd y Prif Gyfrifydd y byddai'r swm am adael y system yn well cytundeb na'r System Gymhorthdal.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd G.M. Kensler, crynhodd y Prif Gyfrifydd fod effaith rhent yn ymddangos ar y Cyfrifon Refeniw Tai ac amlinellodd y camau sy'n cael eu cyflwyno i fynd i'r afael â'r mater.

***PENDERFYNWYD*** *– bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn nodi:-*

*(a) perfformiad swyddogaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor yn ystod 2012/13 a'i gydymffurfiaeth â'r Dangosyddion Darbodus, fel yr adroddwyd yn Adroddiad Rheoli Trysorlys Blynyddol 2012/13, a'r*

*(b) diweddariad Rheoli Trysorlys.*

## 8 ADRODDIAD CWYNION BLYNYDDOL

Roedd copi o adroddiad gan y Pennaeth Cwsmeriaid ac Addysg (PCA), sy'n rhoi trosolwg o gwynion, canmoliaethau ac adborth a dderbyniwyd gan Sir Ddinbych yn ystod y cyfnod o 01.04.12 tan 31.03.13, wedi'i gylchredeg gyda phapurau'r cyfarfod.

Cyflwynodd y PCA yr adroddiad a chadarnhaodd y byddai aelodau'r cyhoedd yn cael eu hannog i anfon cwynion. Eglurodd na ddylid ystyried y nifer o gwynion a dderbyniwyd yn beth negyddol gan fod hwn yn fodd o dderbyn gwybodaeth ddefnyddiol y gellid ei defnyddio i wella safon y gwasanaethau a ddarparwyd. Mynegodd y Cynghorydd M.L. Holland ei gefnogaeth i'r polisi ac amlygodd y rhinweddau o ran rhoi cyfle a dull o ddadansoddi cwynion a dderbyniwyd.

Roedd yr adroddiad yn rhoi trosolwg o'r nifer a'r math o adborth a dderbyniwyd yn ystod 2012/13, gwybodaeth ynglŷn ag adroddiad blynyddol a llythyr ategol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, a manylion datblygiad polisi yn y dyfodol a fyddai'n effeithio ar 'Eich Llais'. Clywodd Aelodau fod y polisi wedi'i hyrwyddo a'i gyhoeddi fel 'Eich Llais'.

Roedd y penawdau ar gyfer 2012/13 wedi'u rhestru yn Atodiad 1 yr adroddiad:-

- Roedd nifer yr adborth a gofnodwyd wedi cynyddu o'i gymharu â 2011/12:
  - cwynion o 12%, o 587 i 660
  - canmoliaethau o 88%, o 436 i 820
  - nid oedd newid o ran awgrymiadau ar 16 o awgrymiadau

- Cynyddodd y nifer o gwynion a ddeliwyd yn llwyddiannus â nhw ar gam 1 i 94.2%, cynnydd o 2.6% ers y llynedd.
- Roedd nifer y cwynion y deliwyd â nhw o fewn y terfynau amser yn parhau i wella, gan gyflawni 91%, er na chyflawnwyd y targed corfforaethol o 95%.

- Roedd 51% o'r holl gwynion wedi'u cadarnhau neu eu cadarnhau'n rhannol, cynnydd o 13% ers y llynedd.

Nododd Aelodau fod 38 o gwynion wedi'u gwneud i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Roedd y nifer hwn yn uwch na'r cyfartaledd o 25 ar gyfer Awdurdodau Lleol Cymru, ac roedd y manylion wedi'u cynnwys yn Atodiad 2.

Roedd tri adroddiad Adran 21 wedi'u rhoi. Rhoddwyd yr adroddiadau hyn pan fod corff cyhoeddus yn cytuno i weithredu unrhyw argymhellion a wnaed gan yr Ombwdsmon. Cafwyd cadarnhad ei fod yn fodlon nad oedd lles y cyhoedd wedi'i gynnwys. Roedd crynodebau o'r adroddiadau wedi'u cynnwys fel Atodiad 3.

Cafwyd llai o gwynion ynglŷn ag Aelodau yn mynd yn groes i'r cod ymddygiad. Derbyniwyd 4 yn 2012/13 o'i gymharu â 9 a dderbyniwyd yn 2011/12.

Roedd amlinelliad o'r newidiadau bwriedig i 'Eich Llais' wedi'i gynnwys yn Atodiad 4. Cyfeiriwyd at y diwygiad i 'Eich Llais' a oedd yn ymgorffori'r polisi cwynion, canmoliaethau ac adborth.

Roedd manylion y broses ymgynghori wedi'u hymgorffori yn yr adroddiad ac yn cynnwys:-

- Rhoi gwybod yn fisol i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth.
- Adroddiadau Chwarterol i'r Pwyllgor Archwilio Perfformiad.
- Rhoi gwybod yn flynyddol i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol.
- Ymgynghori gyda'r Gwasanaethau Cyfreithiol a swyddogion cwynion y gwasanaethau ynglŷn â newidiadau i 'Eich Llais'.

Mewn ymateb i gwestiynau gan y Cadeirydd a'r Cynghorydd S.A. Davies, rhoddodd y PCA fanylion ymgysylltiad a rhan Aelodau yn y broses gwynion, ac amlinellodd y dull wedi'i gydlynu a fabwysiadwyd ar gyfer delio â chwynwyr blinderus posibl, a oedd yn cynnwys enwebu swyddog penodol i ddelio â mater penodol.

Mewn ymateb i gwestiynau gan Mr P. Whitham, eglurwyd fod adroddiadau yn cael eu cyflwyno yn fisol i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth, y Pwyllgorau Archwilio a gellid eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor. Roedd cwynion yn ymwneud ag ysgolion, gan gyfeirio'n benodol at dderbyniadau ysgol, yn cael eu monitro gan yr ysgolion a chytunwyd y gellid darparu gwybodaeth ar dueddiadau'n ymwneud â blynyddoedd blaenorol ar gyfer Aelodau'r Pwyllgor a'u cynnwys mewn adroddiadau yn y dyfodol.

***PENDERFYNWYD** – fod:-*

*(a) y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn derbyn ac yn nodi'r newidiadau a arweiniodd at y polisi cwynion, canmoliaethau diwygiedig – 'Eich Llais', a*
*(b) darparu gwybodaeth ar dueddiadau yn ymwneud â blynyddoedd cynt i Aelodau'r Pwyllgor a'u cynnwys mewn adroddiadau yn y dyfodol.*
***(JW i Weithredu)***

## 9 POLISI A PHANEL DIOGELU CORFFORAETHOL BWRIEDIG

Roedd copi o adroddiad gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Moderneiddio a Lles (CCMLl) (cylchredwyd yn flaenorol) ar y cynnig i fabwysiadu Polisi Diogelu Corfforaethol a sefydlu Panel Diogelu Corfforaethol (PDC) Aelodau/Swyddogion ar y cyd.

Eglurodd y CCMLl nad oedd y prif gyfrifoldeb i'w gyflawni, ar draws sefydliad amlswyddogaeth cymhleth erioed wedi derbyn adnoddau ar wahân. Mae sawl adroddiad awdurdodol olynol dros y 10 mlynedd diwethaf gan gynnwys Waterhouse, Laming, Sir Benfro wedi ei gwneud yn hollol glir bod heriau i gadernid trefniadau diogelu yn codi mewn amryw o wahanol lefydd, a bod rhaid i ddiogelu fod yn "Fater i Bawb".

Amlinellwyd ymagwedd ragweithiol Sir Ddinbych i sicrhau cydymffurfiad â'i gyfrifoldebau diogelu yn yr adroddiad. Eglurwyd, er iddynt ymdrin â hyn mewn amryw o wahanol ffyrdd, ni all Sir Ddinbych fod yn hyderus bod arfer diogelu cadarn wedi'i chynnwys yn holl swyddogaethau'r Cyngor. Roedd manylion ynglŷn â datblygiad yr ymagweddau a fabwysiadwyd i gynnal proffil corfforaethol a throsolwg ar gyfer materion diogelu wedi'u rhoi mewn manylder.

Roedd Polisi a Chanllawiau Diogelu Corfforaethol drafft wedi'u seilio i raddau helaeth ar yr hyn a fabwysiadwyd yn ddiweddar yng Ngwynedd yn dilyn Arolwg Estyn ac yn sgil gofynion a amlinellwyd gan yr Arolygiaeth, oedd wedi'u cylchredeg gyda'r adroddiad. Byddai'r cynnig a gyflwynwyd yn cynnig datblygiad rhesymegol i'r gwaith rydym wedi'i wneud eisoes gyda'r Fframwaith Atebolrwydd Corfforaethol ac ar y Cynllun Gweithredu Diogelu Corfforaethol. Nod y polisi a'r canllawiau fyddai sefydlu dull strwythuredig ar gyfer sicrhau bod diogelu yn fater sy'n cael ei ystyried gan bob gwasanaeth yn y Cyngor, yn ogystal â gan bob aelod etholedig.

Agweddau allweddol y polisi a'r canllawiau yw bod:-

- plant ac oedolion yn cael eu cynnwys.
- roedd yn seiliedig ar ddiogelu, ac nid amddiffyn yn unig.
- mae'n cynnwys y syniad bod Rheolwyr Dynodedig ym mhob gwasanaeth yn ymdrin â materion diogelu (ar ôl cael yr hyfforddiant priodol).
- daw rheolwyr dynodedig ynghyd gydag uwch swyddogion ac Aelodau Arweiniol i ffurfio Panel Diogelu Corfforaethol (PDC) sy'n atebol i'r Cabinet. Disgwylir i'r PDC lunio Adroddiad Blynyddol ar gyfer rhoi gwybod yn fewnol a rhoi gwybod i'r BLIDP.
- byddai disgwyl i bob gwasanaeth sefydlu polisïau a threfnau diogelu sy'n ymdrin â'u maes busnes nhw.
- byddai cyfrifoldebau Aelodau Etholedig yn cael eu cynnwys.
- byddai'n cynnwys data craidd er mwyn rhoi gwybod. Byddai hyn yn cynnwys rhai o'r Dangosyddion Perfformiad arferol a data AD allweddol (gwiriadau CRB, cydymffurfio â geirdaon a chanran y cynghorwyr sydd wedi derbyn hyfforddiant diogelu). Byddai rhywfaint o orgyffwrdd yma gyda rhoi gwybod am y Cynllun Corfforaethol a bydd angen i'r data esblygu i sicrhau ei fod yn ychwanegu gwerth at drefnau rhoi gwybod presennol.

Mae'r atodiadau'n rhoi manylion pellach yn ymwneud â:-

- gwybodaeth sylfaenol am arwyddion o gamdriniaeth a llwybrau atgyfeirio – sy'n cysylltu â threfnau diogelu plant ac oedolion.
- adran ddefnyddiol ar y Cod Ymddygiad a threfnau Gweithio Diogel.
- adran yn amlinellu'r gefnogaeth o ran hyfforddiant a fyddai'n cael ei gynnig i ddechrau, y byddai angen eu datblygu dros amser.
- croesgyfeirio gyda'n Polisïau Recriwtio Diogel (Adnoddau Dynol).
- canllawiau i gynghorwyr ar gyswllt diogel.
- ymdrin â honiadau o gamdriniaeth broffesiynol gan gynnwys cysylltiadau â threfnau diogelu plant ac oedolion.

Teimlwyd y byddai'r pecyn yn cynnig dull credadwy o wneud diogelu'n realiti fel pryder corfforaethol, a byddai'n meithrin agwedd gyson ac atebolrwydd ac yn cael ei deilwra i'r materion sy'n wynebu gwasanaethau penodol. Roedd y prif oblygiadau o ran cost, a fyddai'n driphlyg, wedi'u hamlinellu yn yr adroddiad. Rhoddwyd cadarnhad y gallai mabwysiadu trefniadau'r Polisi a'r Panel gynnig goblygiadau positif yn enwedig ar gyfer pobl hŷn a phobl anabl, ac na nodwyd unrhyw oblygiadau negyddol.

Er bod y canllawiau'n brin ar hyn o bryd, clywodd y pwyllgor fod AD yn cyflawni gwaith i gynhyrchu polisi ar y defnydd o gyfryngau cymdeithasol. Cadarnhaodd y CCMLl y byddai cylch y gwaith pellach yn y maes hwn yn cael ei ymgorffori yng nghylch gorchwyl y PDC. Dywedodd y PGCD wrth y Pwyllgor fod CLlLC wedi cynhyrchu canllawiau ar ddefnydd Aelodau Etholedig o gyfryngau cymdeithasol a allai fod o gymorth.

Mewn ymateb i'r pryder a ganlyn a fynegwyd gan Mr P. Whitham:-

- cytunodd y CCMLl y dylid newid Atodiad 7 i gynnwys cyfeiriad at y ffaith y byddai'r Cabinet yn derbyn Adroddiad Blynyddol gan y PDC.
- yr angen i adolygu'r Polisi a'r Canllawiau yn rheolaidd, a chynnwys cyfnod adolygu penodol o fewn y Cylch Gorchwyl.
- nid oes cyfeiriad yn y Cylch Gorchwyl at y ffaith fod y PDC yn monitro cynnydd technoleg.

Eglurodd y CCMLl na ellid mynd i'r afael â'r materion a godwyd a bod rôl y PDC yn cynnwys canfod unrhyw fylchau posibl yn y Polisi.

Mynegodd y Cynghorydd M.L. Holland y farn y dylai presenoldeb yn y sesiynau hyfforddiant Diogelu fod yn orfodol. Fodd bynnag, teimlai'r Cynghorydd S.A. Davies y dylai'r penderfyniad i fynd i sesiynau hyfforddi o'r fath barhau i fod yn nwylo'r Aelod dan sylw.

Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd, cytunodd Aelodau y byddai'r Polisi a'r Panel Diogelu yn cael eu hadolygu wedi 3 blynedd.

***PENDERFYNWYD*** *– fod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn cytuno:-*

*(a) mabwysiadu'r Polisi Diogelu Corfforaethol.*
*(b) sefydlu Panel Diogelu Corfforaethol gyda chylch gorchwyl fel sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad, yn amodol ar y newidiadau a awgrymwyd, a*

(c) *adolygu'r Polisi a'r Panel Diogelu ar ôl 3 blynedd.*
***(SE i Weithredu)***

**10 CYNLLUN GWEITHREDU'R FFRAMWAITH LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL**

Roedd copi o adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Archwilio Mewnol (PGAM) ar Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol (FfLlC) y Cyngor, a oedd yn rhoi manylion y cynllun gweithredu newydd oedd yn deillio o'r adolygiad o Fframwaith Lywodraethu'r Cyngor a Datganiad Llywodraethu Blynyddol (DLlB) 2012/13, wedi'i gylchredeg gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Monitrodd y PLlC gynllun Gweithredu'r Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol (FfLlC) yn rheolaidd fel rhan o drefniadau llywodraethu cyffredinol y Cyngor i sicrhau fod y Cyngor yn cyflwyno'r gwelliannau sydd angen yn effeithiol. Roedd FfLlC y Cyngor yn cynnwys asesiad blynyddol o drefniadau llywodraethu'r Cyngor a Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn amlygu unrhyw wendidau llywodraethu arwyddocaol. Roedd y Fframwaith yn amlygu meysydd pellach oedd angen eu gwella, er nad oeddynt yn wendidau sylweddol.

Grŵp Llywodraethu'r Cyngor oedd yn rheoli proses y FfLlC a datblygiad y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn barhaus yn ystod y flwyddyn ariannol. Roedd aelodaeth y Grŵp yn cynnwys:-

- Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol
- Is-Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol
- Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd
- Pennaeth Cynllunio Busnes a Pherfformiad
- Pennaeth Cyllid ac Asedau
- Pennaeth Archwilio Mewnol

Roedd y Grŵp wedi datblygu'r Cynllun Gweithredu drafft oedd wedi'i gynnwys fel Atodiad 1. Ar hyn o bryd, roedd gan y Cynllun Gweithredu amlinellol sawl cyfrifoldeb, terfyn amser a diweddariadau cynnydd nad oedd wedi'u cwblhau a byddai'r rhain yn cael eu hychwanegu cyn y diweddariad nesaf a'u cynnal yn rheolaidd.

Rhoddodd y PAM grynodeb fanwl o Atodiad 1 a chyfeiriodd at y Materion Llywodraethu Sylweddol yn Natganiad Llywodraethu Blynyddol 2012/13. Cyfeiriwyd yn benodol at yr angen i AD Strategol gyflwyno gwelliannau yn dilyn adroddiad Archwilio Mewnol negyddol, yr angen i wella ein trefniadau llywodraethu gwybodaeth, rheoli asedau gwybodaeth a'r modd yr hyfforddwyd gweithwyr ac aelodau etholedig mewn gofynion Diogelu Data a Rhyddid Gwybodaeth.

Yn dilyn trafodaeth bellach:-

***PENDERFYNWYD*** *– fod:-*

*(a) y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn derbyn ac yn nodi cynnwys Cynllun Gweithredu drafft y Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol.*
*(b) yn cytuno i gynnwys colofn ychwanegol yn nodi terfynau amser yn ymwneud â blynyddoedd cynt, ac*
*(c) yn gofyn i Aelodau'r Pwyllgor dderbyn gwybodaeth am ddyddiadau cyflwyno'r canlynol:*

- *ail-lansiad y Fframwaith Bartneriaeth.*
- *dyddiad y Polisi Atal Twyll a Llygredd.*
- *diweddaru'r Rheoliadau Ariannol.*
- *diweddaru'r Polisi Rhannu Pryderon.*

***(IB i Weithredu)***

## 11 ADRODDIAD ARCHWILIAD MEWNOL ADNODDAU DYNOL STRATEGOL

Roedd copi o adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Archwilio Mewnol (a gylchredwyd eisoes) yn amlinellu'r cynnydd o fewn Adnoddau Dynol Strategol ar y Cynllun Gweithredu oedd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad Archwilio Mewnol ym fis Hydref, 2012.

Roedd y PLIC wedi monitro cynnydd ar weithredu'r camau gwella a nodwyd gan AD Strategol o ganlyniad i adolygiad Archwilio Mewnol. Roedd Archwilio Mewnol wedi adolygu sawl maes o fewn AD Strategol yn ystod 2012/13, gan ryddhau eu hadroddiad ym mis Hydref, 2012. Cododd y cynllun gweithredu o fewn yr adroddiad 11 o faterion, ac roedd AD Strategol wedi dynodi 45 o weithredoedd mewn ymateb iddynt a fyddai'n cael eu cyflwyno o fewn gwahanol derfynau amser. Cynhaliodd Archwilio Mewnol adolygiad dilynol ar y cynllun gweithredu ym mis Chwefror, 2013 a'u canfyddiad oedd, er bod rhywfaint o gynnydd wedi bod, roedd lefel y cynnydd yn "siomedig o araf" a gwnaed cais am adroddiad cynnydd pellach.

Nododd AD Strategol gynnydd arwyddocaol. Fodd bynnag, er bod camau penodol a nodwyd yn y cynllun gweithredu wedi'u cwblhau, roedd y PAM wedi awgrymu na ellid gwybod eto pa mor effeithiol y bu'r camau hyn wrth fynd i'r afael â'r materion yn yr adroddiad Archwilio Mewnol. Roedd y ddau wasanaeth wedi cyfarfod i drafod y materion oedd yn weddill ac wedi cytuno gweithio'n agosach at ei gilydd i gynnig sicrwydd i'r PAM fod gwelliannau'n cael eu gwneud a'u bod yn mynd i'r afael â materion yn effeithiol.

Eglurwyd fod AD Strategol yn mynd drwy gyfnod o newid a gwelliant arwyddocaol ac y byddai'r camau oedd wedi'u tafod yn yr adroddiad yn rhan o gynllun gweithredu mwy ar gyfer gwella, ac roedd y prosiect yn cael ei reoli drwy broses methodoleg rheoli prosiect y Cyngor ar Verto.

Roedd tabl yn nodi'r sefyllfa ddiweddaraf ar gyfer pob un o'r 45 o weithredoedd a nodwyd gan AD Strategol i fynd i'r afael â chynllun gweithredu'r adroddiad Archwilio Mewnol wedi'i gynnwys yn Atodiad 1. Roedd y tabl yn manylu ar:-

- y materion oedd angen mynd i'r afael â nhw
- y camau a nodwyd i fynd i'r afael â'r materion

- diweddariad AD Strategol ar y cynnydd diweddaraf
- sylwadau – gan gynnwys barn ar i ba raddau mae'r camau yn mynd i'r afael â'r mater

Cadarnhaodd y PAM fod AD Strategol wedi cyflawni cynnydd sylweddol ar y cyfan wrth fynd i'r afael â'r materion a godwyd gan Archwilio Mewnol. Er bod bron pob un o'r camau wedi'u gweithredu bellach, mewn rhai achosion byddai'n cymryd amser i asesu a fu'r rhain yn hollol effeithiol ac roedd rhywfaint o'r llwyddiant yn dibynnu ar gydymffurfiad o fewn gwasanaethau eraill. Er mwyn cynnig sicrwydd atodol, byddai Archwilio Mewnol yn cynnal adolygiad pellach o brosiect gwella AD Strategol yn ystod mis Ebrill, 2014, a fyddai'n cynnwys asesiad o effeithiolrwydd rhai o'r gweithredoedd tymor hirach a nodwyd yn Atodiad 1. Yn enwedig, byddai'r adolygiad yn archwilio'r meysydd canlynol:-

- a yw cywirdeb data am weithwyr wedi gwella;
- gweithredu prosesau a gweithdrefnau newydd yn llwyddiannus fel rhan o adolygiadau'r broses Meddylfryd Systemau;
- cydymffurfiad gyda pholisïau a gweithdrefnau AD o fewn gwasanaethau;
- cywirdeb data a anfonir at yr adran Gyflogau gan AD;
- effeithiolrwydd Desg Gymorth Civica i wella gwasanaeth cwsmeriaid;
- gweithredu fframwaith recriwtio newydd yn llwyddiannus;
- datblygu cynlluniau olyniaeth ar gyfer swyddi allweddol mewn gwasanaethau.

Amlygodd y Cynghorydd M.L. Holland bwysigrwydd sicrhau fod data a ddychwelwyd yn gywir ac yn cael ei dderbyn o fewn y terfynau amser a nodwyd, a theimlai y gallai cyflwyno awtomatiaeth gynorthwyo i ddileu gwallau a gwella lefel y gwasanaeth a ddarparwyd. Rhoddodd y swyddogion fanylion y gwiriadau a'r gweithdrefnau a fabwysiadwyd, gan ddefnyddio TRENT a chynnwys adroddiadau rheolwyr, i liniaru problemau o'r fath.

Mewn ymateb i bryderon a godwyd gan Mr P. Whitham ynglŷn â chydymffurfiad gwasanaethau o ran darparu data o fewn terfynau amser, eglurodd y swyddogion y byddai unrhyw fethiant rheolaidd i gydymffurfio yn cael ei ganfod a'i herio drwy'r broses Herio Gwasanaethau. Eglurodd y PGCD y byddai adroddiad yn cael ei gynhyrchu, fel rhan o'r broses Herio Gwasanaethau, ar berfformiad gwasanaethau unigol mewn perthynas â gwahanol faterion AD.

Cadarnhaodd y PAM y byddai adolygiad yn cael ei gynnal ym mis Ebrill 2014, a byddai adroddiad cynnydd yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ym mis Mai, 2014.

***PENDERFYNWYD** – fod:-*

*(a) y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn derbyn yr adroddiad ac yn cydnabod y cynnydd a wnaed, ac*
*(b) yn cytuno y dylid cyflwyno adroddiad cynnydd pellach ym mis Mai, 2014.*
***(IB i Weithredu)***

## 12 ADRODDIAD CYNNYDD ARCHWILIO MEWNOL

Roedd copi o adroddiad gan y Pennaeth Archwilio Mewnol eisoes wedi'i gylchredeg.

Cyflwynodd y PAM yr adroddiad ar gynnydd diweddaraf y gwasanaeth Archwilio Mewnol o ran ei ddarpariaeth gwasanaeth, darparu sicrwydd, adolygiadau a gwblhawyd, perfformiad ac effeithlonrwydd wrth ysgogi gwellant.

Roedd yr wybodaeth a ddarparwyd wedi'i chyflwyno i'r cyfarfod ar 17 Mawrth, 2013 a byddai'r PDC yn derbyn y sefyllfa canlyniad terfynol yn yr Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol nesaf.

Roedd yr adroddiad yn rhoi diweddariad mewn perthynas â:-

- cyflawni'r Cynllun Sicrwydd ar gyfer 2013/14
- adroddiadau Archwilio Mewnol diweddar a roddwyd
- ymateb y rheolwyr i faterion a godwyd
- perfformiad Archwilio Mewnol

Roedd manylion y gwaith a waned yn ystod 2013/14, o'i gymharu â'r Strategaeth Archwilio Mewnol, wedi'i gynnwys yn Atodiad 1. Roedd yn manylu ar sgoriau sicrwydd a'r nifer o faterion a godwyd ar gyfer yr adolygiadau a gwblhawyd, diffiniadau a ddefnyddiwyd i ffurfio'r sicrwydd archwilio a'r sgoriau a ddefnyddiwyd i asesu'r lefelau risg ar gyfer y materion a godwyd.

Roedd manylion y lliwiau a ddefnyddiwyd ar gyfer y sgoriau sicrwydd wedi'u rhoi, ynghyd â rhestr o adroddiadau a roddwyd ers mis Gorffennaf, 2013. Roedd adroddiadau Crynodeb Gweithredol a chynlluniau gweithredu wedi'u hatodi i'r adroddiad er gwybodaeth ychwanegol ac yn cynnwys:-

- Ymrwymiad Lleihau Carbon.
- Profi Sicrwydd Systemau Ariannol 2012/13.
- Strategaeth Gwblhau Taith i Waith.
- Gwasanaeth Maethu.
- Gwasanaeth Tai (Rhenti a Diwygio'r Gyfundrefn Les).
- Gweithrediadau Cefn Gwlad.
- Gosod terfynau rhwng rolau a chyfrifoldebau Gwasanaethau Cynllunio Addysg ac Adnoddau a Chyfrifeg.

Roedd ymateb y rheolwyr i faterion a godwyd gan archwilio mewnol yn cynnwys:-

Roedd y rhan fwyaf o adroddiadau Archwilio Mewnol yn nodi risgiau a gwendidau rheoli ac roedd y rhain wedi'u graddio fel risgiau critigol, arwyddocaol na chymedrol. Roedd y rheolwyr wedi cytuno ar weithredoedd i fynd i'r afael â'r risgiau hyn gan gynnwys cyfrifoldebau ac amserlenni. Byddai pob achos lle nad oedd rheolwyr yn gallu ymateb i waith dilynol, neu os oeddent wedi mynd heibio i'r dyddiad cyflwyno o fwy na thri mis, yn cael eu hadrodd a byddai'r Pwyllgor yn penderfynu a oedd angen gweithredu ymhellach. Nid oedd unrhyw faterion i'w codi gyda'r Pwyllgor ar hyn o bryd ac roedd manylion yn ymwneud â Pherfformiad Archwilio Mewnol wedi'u cynnwys yn yr adroddiad er gwybodaeth.

Cyfeiriodd y PAM at Atodiad 2, a oedd yn cynnwys adroddiadau, crynodeb o adroddiadau, Barn yr Archwilwyr a Chynlluniau Gweithredu, y gwnaed cais amdano'n flaenorol fel newid i'r dull adrodd presennol.

Mewn ymateb i gwestiwn gan Mr P. Whitham, cytunodd y PAM i roi manylion ar daenlen yn ymwneud â Pherfformiad Archwilio Mewnol, Sicrwydd Hanfodol – pob targed canran.

***PENDERFYNWYD*** *–fod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn:-*

*(a) nodi cynnydd Archwilio Mewnol a'u perfformiad hyd yma yn 2012/13. derbyn yr adroddiadau Archwilio Mewnol diweddaraf a roddwyd, a*
*(b) darparu manylion yn ymwneud â Pherfformiad Archwilio Mewnol, Sicrwydd Hanfodol – pob targed canran.*

***(IB i Weithredu)***

## 13 ADRODDIAD ARCHWILIO MEWNOL YSGOL CLAWDD OFFA

Roedd copi o adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Archwilio Mewnol (oedd eisoes wedi'i gylchredeg) yn rhoi manylion adroddiad Archwilio Mewnol ar Ysgol Clawdd Offa, Prestatyn.

Roedd y PDC wedi gofyn i adroddiad Archwilio Mewnol llawn gael ei gyflwyno i'w cyfarfod ym mis Medi gan fod y Farn Archwilio Mewnol yn nodi Sicrwydd Isel ac roedd y Cynllun Gweithredu'n cynnwys 21 o faterion y gellid eu rheoli yn yr ysgol.

Eglurodd y PAM fod cyfarfod dwysau wedi'i gynnal yn yr ysgol a gwnaed cais am adolygiad dilynol i gynorthwyo i fonitro cynnydd. Mynegodd y PAM ac Aelodau'r Pwyllgor bryder ynglŷn â diffyg rhyngweithiad ac ymgysylltiad gan aelodau'r Grŵp yn y cyfarfod. Cadarnhaodd y byddai copi o'r adroddiad dilynol yn cael ei gylchredeg i Aelodau'r Pwyllgor ar ôl ei gwblhau, a byddai adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ym mis Rhagfyr, 2013.

***PENDERFYNWYD*** *–fod:-*

*(a) y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn derbyn ac yn nodi cynnwys yr adroddiad a'r Cynllun Gweithredu, ac*
*(b) adroddiad dilynol yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ym mis Rhagfyr, 2013.*

***(IB i Weithredu)***

## 14 ADBORTH O'R CYFARFOD CYDRADDOLDEB CORFFORAETHOL

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad llafar gan y Cynghorydd M.L. Holland mewn perthynas â'r cyfarfod Cydraddoldeb Corfforaethol.

Eglurodd y Cynghorydd M.L. Holland bwysigrwydd sicrhau cydraddoldeb ledled y Cyngor mewn perthynas â phob agwedd o’r swyddogaethau a gynhaliwyd, a byddai gofyn i bob Adran gwblhau Asesiadau o Effaith ar Gydraddoldeb (AEG) lle bod hynny’n berthnasol. Ymatebodd y PGCD i bryderon a fynegwyd gan y Cynghorydd S.A. Davies ac amlygodd berthnasedd a phwrpas AEG. Eglurodd fod y templedi ar gyfer adroddiadau i’r Cyngor a’r Cabinet wedi’u diwygio i gynnwys AEG, neu esboniad dros beidio â chael un, mewn achosion lle'r oedd angen penderfyniad.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Holland at faterion a ystyriwyd yn y cyfarfod Cydraddoldeb Corfforaethol a oedd yn cynnwys hyfforddiant o bell i Aelodau Etholedig a staff, a oedd yn cynnwys iPads a Skype, a darparu safleoedd teithwyr a sipsiwn yn y Sir.

***PENDERFYNWYD** –fod y Pwyllgor yn derbyn ac yn nodi’r adroddiad.*

## 15 RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

Cyflwynwyd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol (RhGD) y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol (a gylchredwyd eisoes) i’w ystyried.

Eglurodd y PGCD fod y mater o’i gwneud yn ofynnol i Aelodau Arweiniol fod yn bresennol mewn cyfarfodydd Pwyllgor wedi’i godi yn y Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Archwilio. Cytunodd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol y gallai’r RhGD nodi’r angen am bresenoldeb Aelod Arweiniol yn y cyfarfod gan ddibynnu ar natur yr adroddiad oedd yn cael ei gyflwyno.

Rhoddodd Aelodau ystyriaeth i’r RhGD ar gyfer mis Tachwedd, 2013 a chytunwyd y byddai’r Cynghorydd J. Thompson-Hill yn cael ei wahodd i’r cyfarfod ar gyfer yr eitem Diweddariad Cyllideb.

Cadarnhaodd y Pwyllgor y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol yn amodol ar y canlynol:-

- Cyflwyno diweddariad ar yr Adroddiad Archwilio Mewnol ar Ysgol Clawdd Offa, Prestatyn a’r Adroddiad ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol i gyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ym mis Rhagfyr, 2013.

***PENDERFYNWYD** – fod y Pwyllgor yn cymeradwyo’r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol yn amodol ar yr uchod.*
***(IB a GW i Weithredu)***

Daeth y Cyfarfod i ben am 13.10 p.m.